CrimeStoppers.

Gwanwyn 2025

# Connections

Rhoi'r grym i bobl godi eu llais ac atal troseddu



## Byddwch y newid

Sut y mae Crimestoppers yn cynorthwyo pobl, cymunedau a busnesau

**GWNEUD GWAHANIAETH**

Safbwyntiau penaethiaid yr heddlu am arwyddocâd cynyddol ein helusen

**GRYMUSO CYMUNEDAU**

Ymgyrch *Clear, Hold, Build* yn datblygu cymdogaethau mwy diogel

# Cynnwys


Chwalu'r tawelwch: sut y mae Crimestoppers yn galluogi cymunedau i godi eu llais am droseddu........1
Ysgogi newid trwy arloesi ac adrodd dienw...................2

## Cipolygon

Eirioli dros ddioddefwyr a chymunedau – ymrwymiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu................................4
Crimestoppers yn croesawu Kate Johnson yn Gyfarwyddwr Datblygu Busnes a Chodi Arian newydd.....................................................................5
Llwyddiant gydag ymgyrch ar Ystad Parc Grahame, Barnet.............................................................6

## Fearless

Diogelu pobl ifanc rhag blacmel rhywiol .......................7
Fearless yn cydweithio gyda sefydliad JD.......................8
Fy interniaeth yn Crimestoppers.............................................8

## Partneriaethau – cadw cymunedau yn ddiogel gyda'n gilydd

Gwella atebolrwydd gyda llinellau uniondeb yr heddlu.10
Basgedi bara: hanfodol ar gyfer cadwyni cyflenwi cynaliadwy.............11
Mae Crimestoppers ac eufy wedi dod ynghyd mewn partneriaeth newydd er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag troseddu.........................................................................11
Sut y mae DPD a Crimestoppers yn sicrhau trefniadau dosbarthu mwy diogel ar draws y DU.....12
Trawsnewid bywydau gyda rhaglen cymorth galwedigaethol Vivastreet..................................................12
Cydweithio i leihau troseddu yn y cymunedau yr ydym oll yn byw ynddynt ac yn eu gwasanaethu.....13
Llinell Gymorth Troseddau Bwyd yr Alban yn cynorthwyo wrth adfer cynhyrchion anghyfreithlon...14
Cysylltu'r dotiau.........................................................................14
Crimestoppers yn cynorthwyo ymdrechion i haneru troseddau cyllyll mewn degawd .........................................15
Y dull gweithredu daearyddol wrth fynd i'r afael â throseddau treisgar: dirnadaeth gan Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr.................................................16

## Uchafbwyntiau ymgyrchoedd

Ymgyrchoedd cenedlaethol..................................................18
Ymgyrchoedd rhanbarthol.....................................................19

## Cymuned Crimestoppers

Cynnig gwobr o £50,000 am ddychwelyd darnau arian Albanaidd prin..................................................21
Ymgyrchu yn erbyn troseddu cefn gwlad trwy gyfryngau cymdeithasol a radio ........................................21
Cydnabod gweithgarwch cydweithio sy'n cael effaith yn Rewarding Partnerships a Chinio Blynyddol 2024....... 22
Dathlu gwirfoddolwyr gyda Room to Reward............22
Hunter Thorburn yn myfyrio ar yrfa ddisglair dros 35 mlynedd gyda Crimestoppers ....................................... 23-24




# Chwalu'r tawelwch:

## sut y mae Crimestoppers yn galluogi cymunedau i godi eu llais am droseddu

Croeso i 7fed rhifyn Connections gan Crimestoppers, lle'r ydym yn myfyrio ar gyflawniadau'r elusen yn ddiweddar ac yn cynnig cyfle i'r rhai sy'n hyrwyddo ein gwasanaethau i rannu eu straeon.



**Arglwydd Ashcroft KCMG PC**
Sylfaenydd a Chadeirydd
Crimestoppers

Mae'n ymddangos yn anghredadwy heddiw, ond cyn 1988, nid oedd ffordd yn bodoli i bobl roi eu gwybodaeth am droseddu mewn ffordd hollol ddienw neu heb siarad gyda'r heddlu yn uniongyrchol.

Er bod y rhan fwyaf o bobl yn fodlon codi eu llais am droseddu, ceir cyfran sylweddol sy'n gwrthod gwneud hynny. Mae sawl rheswm dros hyn. I rai, mae'n rhywbeth diwylliannol; i eraill, maent yn ofni y byddant yn dioddef canlyniadau negyddol neu y bydd rhywun yn dial arnynt.

Anaml y bydd troseddu allan o'r penawdau, ac rydym yn cael gwybodaeth bwysig yn rheolaidd gan y cyhoedd sy'n cynnig darn coll hanfodol o'r jig-so i ymchwilwyr. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n sicrhau bod y rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, megis y rhai sy'n dioddef cam-drin domestig neu gaethwasiaeth fodern, yn cael eu diogelu ac yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt yn ddybryd.

Rydym wedi bod ar agor ac ar gael 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn i'n holl fuddiolwyr sy'n ymddiried yn Crimestoppers i drosglwyddo'r hyn y maent yn ei wybod am droseddu mewn ffordd hollol ddienw, a byddwn yn parhau i fod ar agor ac ar gael yn yr un ffordd. Mae'r ymrwymiad hwnnw mor gadarn heddiw ag yr oedd pan sefydlais yr elusen yn ôl ar ddiwedd y 1980au.

> **"Mae'n ymddangos yn anghredadwy heddiw, ond cyn 1988, nid oedd ffordd yn bodoli i bobl roi eu gwybodaeth am droseddu mewn ffordd hollol ddienw neu heb siarad gyda'r heddlu yn uniongyrchol."**

# Ysgogi newid trwy arloesi ac adrodd dienw

Mae Crimestoppers yn cynnig ffordd ddiffwdan i rannu gwybodaeth hanfodol, gan helpu i ddiogelu unigolion agored i niwed a meithrin cymdeithas decach i bawb.



**Mark Hallas OBE**
Prif Weithredwr
Crimestoppers

Mae Crimestoppers yn elusen unigryw sydd â hanes gwych ac sy'n teimlo'n angerddol iawn am y gwaith hanfodol a wnawn, gan gynnig y ffordd i'r cyhoedd godi eu llais yn ddienw am droseddu.

Ein prif ddiben yw cynnig llais i'r difreintiedig, gan estyn allan i'r bobl hynny sy'n dymuno gwneud y peth iawn ond na allant droi at yr heddlu yn uniongyrchol, am ba reswm bynnag.

Mae cyfathrebu Crimestoppers, trwy wneud defnydd gwell o waith dadansoddi data, dirnadaeth ymddygiadol a gwybodaeth, wastad yn ceisio annog mwy o bobl i gysylltu â ni am droseddu.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym yn gwneud mwy ym maes codi ymwybyddiaeth; o ddarparu ymgyrchoedd lleol a chenedlaethol wedi'u targedu, i annog y rheiny i barhau i gefnogi ein hangen cynyddol i fynd i'r afael â throseddu. Mae hyn yn arwain at ganlyniadau amlwg ac mae'n gwella bywydau.

Mae'r ffordd yr ydym yn cyfathrebu yn hollbwysig, gan gynnwys ymgysylltu digidol trwy blatfformau cymdeithasol a theilwra ein hymgyrchoedd ar gyfer cynulleidfaoedd heddiw.

Yn yr un modd, wrth i ni gael mwy o gyswllt fyth gyda'r cyhoedd ar-lein, byddwn wastad ar gael i siarad gyda'r rhai y maent ein hangen.

Yn ychwanegol i godi ymwybyddiaeth ac adrodd am droseddu, rydym yn canolbwyntio ar uwchsgilio ein gallu dadansoddi. Rydym yn buddsoddi mewn awtomatiaeth er mwyn caniatáu i luoedd gael adroddiadau gwybodaeth ar unwaith. Mae hyn yn gwella effeithlonrwydd ac yn cynyddu cywirdeb ac mae'n helpu gydag adborth. O'i reoli yn ofalus, mae gan Ddeallusrwydd Artiffisial rôl hefyd.

Rydw i'n falch o'r gwaith gwych y mae ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr yn ei wneud, i sicrhau bod Crimestoppers yn fwy perthnasol nag erioed mewn byd sy'n newid.

> **"Ein prif ddiben yw cynnig llais i'r difreintiedig, gan estyn allan i'r bobl hynny sy'n dymuno gwneud y peth iawn."**

# Cipolygon

Sut y mae staff Crimestoppers yn gweithio gyda rhanddeiliaid i ymladd ar y cyd yn erbyn camfanteisio a gweithgarwch troseddol.  Byddai'r frwydr gymaint anoddach i bawb heb y partneriaethau hyn sy'n cynnig budd i'r ddwy ochr.





**Matthew Scorr, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Caint**

# Eirioli dros ddioddefwyr a chymunedau – ymrwymiad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu

Mae Matthew Scott, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Caint, yn rhannu...

Rydw i'n hynod ddiolchgar i Crimestoppers am yr holl waith y maent yn ei wneud i sicrhau bod ein cymunedau yn fwy diogel. Roeddwn yn falch o weld enghraifft uniongyrchol o hyn eto pan ymwelais â'r Ganolfan Gyswllt yn ddiweddar. Mae'r proffesiynoldeb, y tosturi a'r ymroddiad y maent yn ei ddangos wrth ddelio â materion sydd yn aml yn anodd neu'n drawmatig, i'w ganmol yn fawr. Ar ran fy mhreswylwyr yng Nghaint – diolch yn fawr.

Fel Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, mae gennyf nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol, ond byddaf yn hyrwyddo dwy egwyddor allweddol wrth siarad gyda grwpiau lleol. Yn gyntaf, mai eich CHTh yw'r Eiriolwr Dioddefwyr lleol, a'i bod yn bwysig ein bod yn sicrhau ei bod yn hawdd delio â'r broses cyfiawnder troseddol yn ystod pob cam, waeth pa gam yr ydych chi arni. Mae hynny'n cynnwys popeth o sicrhau ei bod mod hawdd ag y bo modd adrodd, i sicrhau bod ymchwiliadau effeithiol yn cael eu cynnal, a bod gwasanaethau ar gael i'ch eu cefnogi, waeth beth fo'r angen.

A'r llall yw bod yn Eiriolwr Cymunedol effeithiol, gan sicrhau bod llais eich cymdogaeth yn cael ei glywed, waeth faint o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n effeithio arnoch, a bod eich llu lleol yn ymatebol.

### Cynnig sicrwydd

Yn anffodus, pan fyddaf yn siarad yn ystod digwyddiadau cymunedol, yr adborth cyffredin a roddir yw bod pobl yn gofidio ynghylch adrodd am droseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, felly byddaf yn camu i mewn i atgoffa pobl o'r gwaith gwerthfawr y mae Crimestoppers yn ei wneud ar y pwynt hwn. Gyda sgandalau amlwg sydd wedi cynnwys rhai heddweision, siglwyd ymddiriedaeth a hyder mewn plismona, felly ni fydd rhai pobl yn cysylltu pan fyddant wedi cael eu heffeithio gan droseddu.

Felly, rydw i wedi bod yn falch i amlygu'r gwaith gwych a wneir gan Crimestoppers mewn partneriaeth â Heddlu Caint. Wrth roi'r hyder i bobl godi eu llais am droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol, llygredigaeth neu gamymddwyn, gallwn wneud mwy i roi sylw i'r problemau hyn ac adfer hyder. Rydw i wastad yn falch o glywed ein bod yn defnyddio adroddiadau Crimestoppers mewn ffordd effeithiol yng Nghaint ac Essex er mwyn sicrhau bod llais dioddefwyr yn cael ei glywed a bod y rhai dan amheuaeth yn cael eu dwyn gerbron eu gwell.

Diolch unwaith eto Crimestoppers am bopeth yr ydych yn ei wneud, a byddaf yn parhau i drysori'r berthynas rhwng fy Swyddfa i a Crimestoppers.

# Crimestoppers yn croesawu Kate Johnson yn Gyfarwyddwr Datblygu Busnes a Chodi Arian newydd

Ym mis Ionawr, roedd hi'n bleser gan Crimestoppers gyhoeddi bod Kate Johnston wedi cael ei phenodi yn Gyfarwyddwr Datblygu Busnes a Chodi Arian.

Mae Kate yn dwyn cyfoeth o brofiad o'r sectorau masnachol ac elusennol. Mae hi wedi cyflawni swyddi uwch mewn dau gwmni meddalwedd ymchwilio a deallusrwydd, sef Altia a Harod. Mae cysylltiad dwfn â Crimestoppers yn cyd-fynd â'i phrofiad helaeth yn y diwydiant, gan ei bod wedi cyflawni rolau masnachol a gweithredol i'r elusen dros gyfnod blaenorol o 13 mlynedd.

Dywedodd Kate, "Rydw i wrth fy modd o gael y cyfle i ddychwelyd i elusen sydd wastad wedi bod yn annwyl i mi. Rydw i'n edrych ymlaen at ddatblygu cyflawniadau nodedig Crimestoppers a'r camau a gymrwyd ym maes arloesi, technoleg, pobl a pherfformiad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae wir yn anrhydedd gweithio i sefydliad sy'n gwneud gwaith diflino, 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn, gan gynnig llwyfan diogel a dienw i'r cyhoedd adrodd am droseddu, ac sy'n cynorthwyo'r heddlu gyda'u cenhadaeth hanfodol i gadw cymunedau yn ddiogel."



**Kate Johnston, Cyfarwyddwr Datblygu Busnes a Chodi Arian**

Amlygodd sefyllfa unigryw Crimestoppers hefyd fel elusen: "Yr hyn sy'n gwneud Crimestoppers yn wahanol yw ei gallu i gynnig gwasanaeth amhrisiadwy i'r cyhoedd, a hefyd, cynnig gwasanaethau i sefydliadau a diwydiannau er mwyn eu galluogi i gael cipolygon hollbwysig ar faterion troseddu a chamymddwyn sy'n effeithio arnynt. Mae'r dull gweithredu deuol hwn yn cryfhau'r effaith yr ydym yn ei chael wrth fynd i'r afael â throseddu o onglau lluosog."

Mae Kate yn edrych ymlaen at gydweithio gyda phartneriaid Crimestoppers yn yr heddlu a'r llywodraeth, ynghyd â'i phartneriaid masnachol, wrth i'r elusen barhau ei gwaith hanfodol i atal troseddu a hyrwyddo diogelwch ar draws cymunedau.

| | | |
|---|---|---|
| **Llinellau adrodd i gyflogeion** | **Llinellau adrodd diwydiant** | **Rhannu gwybodaeth** |
| **Ymgyrchoedd** | **Eiddo deallusol** | **Cyfrifoldeb Cymdeithasol Corfforaethol** |
| **Codi arian** | **Partneriaethau 3ydd parti** | **Digwyddiadau rhwydweithio** |

# Llwyddiant gydag ymgyrch ar Ystad Parc Grahame, Barnet

Gan weithio gyda phartneriaid lleol, cynhaliodd Crimestoppers ymgyrch ar Ystad Parc Grahame yn Barnet, er mwyn ceisio grymuso preswylwyr lleol i gysylltu a chodi eu llais am droseddau sy'n effeithio ar eu cymuned leol. Nod yr ymgyrch yn y lle cyntaf oedd codi ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a gynigir gan Crimestoppers a Fearless, gan esbonio sut yr ydym yn cadw pobl yn ddienw.

Dilynwyd hyn gan ail gam yr ymgyrch, a oedd yn annog preswylwyr i adrodd am weithgareddau troseddol mewn ffordd ddienw, gan helpu i wneud eu cymdogaeth yn fwy diogel a chreu ysbryd cymunedol lle y gall pawb wneud eu rhan wrth godi eu llais am droseddu.

Bu'r ymgyrch yn ymdrech ar y cyd, gan ddwyn awdurdodau lleol, darparwyr tai, timau plismona bro, grwpiau ffydd a darparwyr gofal iechyd ynghyd. Bu'n rhan o brosiect Clear Hold Build (CHB), sy'n ceisio mynd i'r afael â throseddu difrifol a chyfundrefnol trwy gyfrwng dull gweithredu strwythuredig. Defnyddiodd yr ymgyrch gyfryngau cymdeithasol, tudalen lanio benodedig, gwaith celf lleol, gweithgarwch dosbarthu taflenni a phecyn cymorth i bartneriaid er mwyn lledaenu'r gair.



**Shane Roberts – lluniwr CHB ac arweinydd Polisi Cenedlaethol**

Dywedodd Shane Roberts, lluniwr CHB: "Mae Crimestoppers wedi gwneud cyfraniad aruthrol i effaith Clear Hold Build wrth sicrhau bod cymunedau yn fwy diogel ar draws y DU.

"Gwellodd Crimestoppers yr ymateb rhwng partneriaid, asiantaethau a grwpiau lleol yn y gymuned ei hun. Bu'r gwaith allgymorth a gyflawnwyd gan Fearless ac Unity yn llwyfan er mwyn casglu llais y gymuned, gan gynnwys yr ofnau sy'n parlysu cymunedau, y niwed presennol a achosir gan gamfanteisio a chynnig cipolwg ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

Mae hyn wedi galluogi partneriaid cyflawni i ddeall "profiad go iawn" y gymuned yn uniongyrchol, gan alluogi pawb i gydweithio er mwyn llunio ymateb CHB i roi sylw i'w hanghenion penodol. Mae hyn wedi gwella ymddiriedaeth a hyder yn sylweddol, gan sicrhau cefnogaeth gymunedol ar gyfer CHB.

"Wrth roi CHB wrth wraidd ymdrechion i gynorthwyo cymunedau i frwydro yn erbyn troseddu cyfundrefnol, mae Crimestoppers wedi datblygu i fod yn rhanddeiliad allweddol ac yn bartner cyflawni yr ymddiriedir ynddo, ac rydw i'n hynod ddiolchgar am hyn."

## Cyflawniadau'r ymgyrch:

Llwyddwyd i gyrraedd **71,323** o bobl ar gyfryngau cymdeithasol Crimestoppers gyda **390,000** o argraffiadau

Ymgysylltwyd â **412,774** o bobl ifanc ar gyfryngau cymdeithasol Fearless, gan sicrhau **2,284,515** o argraffiadau

Anfonwyd **186** o adroddiadau at fiwro gwybodaeth MPS, gyda **112** o adroddiadau ychwanegol ar ôl yr ymgyrch

Cynnydd o **9%** yng nghyfanswm yr adroddiadau am droseddu cyfundrefnol difrifol yn Barnet

Cynnydd o **8%** mewn gwybodaeth am fasnachu a chyflenwi cyffuriau

Cynnydd mawr o **33%** yn nifer yr adroddiadau am gyllyll ac arfau

Cafwyd **9** adroddiad am unigolion yr oedd yr heddlu yn chwilio amdanynt yn Barnet




# Diogelu pobl ifanc rhag blacmel rhywiol

Mae Fearless wedi lansio ymgyrch bwerus ar draws yr Alban er mwyn diogelu pobl ifanc rhag blacmel rhywiol – math cynyddol o flacmel ar-lein lle y mae troseddwyr yn bygwth rhannu delweddau cignoeth o'r dioddefwr oni bai y bodlonir galwadau.

Datblygwyd a chynhaliwyd y fenter gan wasanaeth ieuenctid ein helusen, ar ôl sicrhau cyllid a chymorth gan Lywodraeth yr Alban a Heddlu yr Alban. Roedd yr ymgyrch yn targedu pobl ifanc 13-21oed, sy'n cael eu heffeithio gan flacmel rhywiol mewn ffordd anghymesur.

Roedd gweithgarwch cydgynhyrchu gan bobl ifanc ar gyfer pobl ifanc yn sicrhau bod neges yr ymgyrch yn taro tant gyda'r gynulleidfa darged. Roedd y gwaith allgymorth ar gyfryngau cymdeithasol yn canolbwyntio ar y platfformau mwyaf cyffredin a ddefnyddir gan bobl ifanc, gan gynnwys TikTok, Snapchat ac Instagram.

Mae prif neges yr ymgyrch yn syml: os bydd person ifanc yn dioddef blacmel rhywiol, ni ddylent fynd i banig, ni ddylent dalu na chydymffurfio â galwadau'r blacmeliwr, a dylent gael help. Mae'n mynd ymlaen i dawelu meddwl y person ifanc trwy nodi nad nhw sydd ar fai. Mae'r fenter yn cynnig cyngor hollbwysig i oedolion sy'n gweithio gyda phobl ifanc ifanc, gan roi'r wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol iddynt i adnabod ac ymateb i achosion blacmel rhywiol.

Ers ei lansio ym mis Tachwedd 2024, mae'r ymgyrch wedi cael ei gweld dros 12 miliwn gwaith ar gyfryngau cymdeithasol, ac mae'r tudalennau glanio penodol sy'n cynnig gwybodaeth hanfodol wedi cael eu cyrchu dros 80,000 gwaith.

Dywedodd Steve Johnson, Prif Gwnstabl Cynorthwyol: "Roedd Heddlu yr Alban wir wedi croesawu'r cyfle i gefnogi'r ymgyrch genedlaethol arloesol a phwerus gan Fearless am flacmel rhywiol. Roedd bod yn rhan ohoni wedi caniatáu i ni gyfleu yr hyn sy'n gallu bod yn neges anodd i gynulleidfa fawr o blant a phobl ifanc, yn ogystal â rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid."

# Fearless yn cydweithio gyda Sefydliad JD

Cafodd Fearless y fraint o gael eu gwahodd gan Sefydliad JD (adran elusennol JD Sports) i gymryd rhan yn eu digwyddiadau JD UP yn Llundain a Manceinion. Mae'r rhain yn brofiadau trochol unigryw a gynlluniwyd i ysbrydoli pobl ifanc, cynnig dirnadaeth o ystod eang o yrfaoedd a'u helpu i wireddu eu potensial di-ben-draw.

Bu'r digwyddiadau hyn yn gyfle i dîm Fearless ymgysylltu â miloedd o fyfyrwyr mewn amgylchedd hwyliog a rhyngweithiol (dychmygwch droellwr ar y deciau, sesiynau panel holi ac ateb a chystadlaethau dawns yn yr awditoriwm a siop JD o faint llawn a adeiladwyd yn arbennig ar gyfer yr achlysur!).




Siaradom gyda phobl ifanc am Fearless ac adrodd mewn ffordd ddienw, a'u gwahodd i fod yn chwilfrydig am y ffordd y byddent yn delio â sefyllfaoedd anodd, gan sicrhau gwybodaeth werthfawr am y mathau o droseddau sy'n peri'r pryder mwyaf iddynt. Bydd y myfyrdodau a'r syniadau yr oeddent wedi'u rhannu gyda ni yn ein helpu i siapio ein cynlluniau a'n hymgyrchoedd yn y dyfodol, a bydd yn ein galluogi i gysylltu â'n cynulleidfa allweddol o bobl ifanc 11 i 17 oed.

Roedd treulio pedwar diwrnod yng nghwmni pobl ifanc gwych, criw angerddol JD Sports ac elusennau eraill sydd wedi ymrwymo i chwalu'r rhwystrau ar gyfer y genhedlaeth nesaf yn brofiad hynod o werth chweil. Roeddem hefyd yn ddiolchgar i gael cymorth (ac egni!) ein cydweithwyr ar draws yr elusen.

## Fy iterneiaeth yn Crimestoppers

**gan Lucie Crooks**

Fel myfyrwraig Troseddeg a Chyfiawnder Troseddol sydd yn fy nhrydedd blwyddyn ym Mhrifysgol Greenwich, mae'n siŵr mai fy lleoliad gyda Crimestoppers fu'r rhan fwyaf ysbrydoledig a gwerth chweil o'm gradd hyd yn hyn.

Pan glywais yn gyntaf am y cyfle gyda Crimestoppers mewn ffair lleoliadau prifysgol, roeddwn yn gwybod bod yn rhaid i mi ymgeisio. Cefais gyfweliad ar gyfer y rôl ar ddiwrnod fy mhen-blwydd ac roeddwn wrth fy modd i glywed yn ôl yr un diwrnod. O'm taith gyntaf i'r swyddfa, roedd pawb yn gyfeillgar ac yn groesawgar. Mae hyn wedi parhau trwy gydol fy nghyfnod gyda'r elusen a byddaf wastad yn ddiolchgar am hyn.

Mae fy mhrif rôl wedi bod gyda gwasanaeth ieuenctid Crimestoppers, sef Fearless, lle'r wyf wedi bod yn rhedeg eu cyfrifon TikTok ac Instagram – rydw i bellach yn hen law ar y cyfryngau cymdeithasol! Mae wedi bod yn llawer o hwyl, ac rydym wedi chwerthin sawl gwaith y tu ôl i'r camera. Mae hefyd wedi dysgu llawer i mi am gyfryngau cymdeithasol, marchnata a dadleuon moesegol ynghylch targedu pobl ifanc gyda gwaith hysbysebu, a byddaf yn manteisio ar hyn ar ba bynnag lwybr gyrfa y byddaf yn ei ddewis. Mynychais gyfarfod bwrdd hefyd, lle y bûm yn cymryd nodiadau a pharatoi cofnodion, a rannwyd ar draws yr elusen.

Mynychais ddau ddigwyddiad JD UP (ffeiriau gyrfaoedd trochol a gynhaliwyd gan Sefydliad JD, gweler uchod) gyda thîm Fearless, yn Llundain ac ym Manceinion. Roedd hwn yn brofiad hynod o gyffrous, ac rydym wedi bod yn defnyddio'r ddirnadaeth a gafwyd gan y miloedd o bobl ifanc yr oeddem wedi eu cyfarfod yno i ddylanwadu ar gynnwys ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol.



**Lucie yn dathlu ei phen-blwydd yn 21 oed ym Mhencadlys Crimestoppers**

Rydw i wedi dysgu cymaint o'r lleoliad hwn, ac rydw i'n ddiolchgar i bawb sydd wedi fy nhywys a chynnig cyfleoedd i mi feithrin sgiliau newydd, prynu coffi neu gacen i mi neu sydd wedi gwenu a dweud helo wrthyf. Rydw i mor falch o'r gwaith yr wyf wedi'i wneud yn ystod fy nghyfnod gyda Crimestoppers, ac rydw i'n edrych ymlaen i weld beth arall y byddaf yn ei gyflawni fel myfyriwr israddedig ar leoliad myfyriwr, ond hefyd fel gwirfoddolwr ar ôl fy ngradd!

# Partneriaethau
## cadw cymunedau yn ddiogel gyda'n gilydd

Mae ein tîm Datblygu Busnes a Chodi Arian prysur yn gweithio mewn partneriaeth gyda dros 100 o sefydliadau masnachol ac sy'n dod o'r sector cyhoeddus a'r llywodraeth. Yma, rydym yn bwrw golwg ar rai ohonynt.



# Gwella atebolrwydd gyda llinellau uniondeb yr heddlu

Mae Jon McAdam, swyddog arweiniol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer Crimestoppers, yn trafod effaith ein Gwasanaeth Adrodd am Atal Cam-drin a Llygredigaeth.

Yn ystod y gwanwyn 2024, cefais fy mhenodi yn swyddog arweiniol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ar gyfer Crimestoppers, sy'n rhan o'r Pwyllgor Cenedlaethol Cydlynu Gwybodaeth.

Ar ôl ymweld â Phrif Swyddfa Crimestoppers a chadeirio cyfarfodydd gweithgorau, credaf y gallaf ddatblygu llwyddiant yr elusen a gweithgarwch rhyngweithio gyda heddluoedd ar draws y Deyrnas Unedig.




**Jon McAdam, swyddog arweiniol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar gyfer Crimestoppers**

### Darganfod llygredigaeth

Mae Crimestoppers yn cynnig gwasanaethau ar sail uniondeb, yn fewnol i wasanaethau plismona ac yn allanol fel menter ar gyfer y cyhoedd. Mae Gwasanaeth Adrodd am Gam-drin a Llygredigaeth yr Heddlu wedi bod yn rhedeg ers dros flwyddyn bellach, ac mae'n cynnig llwybr dienw i'r cyhoedd godi eu llais am yr heddlu – boed hynny yn aelod o staff neu'n wirfoddolwr – sy'n llwgr neu sy'n cyflawni cam-drin difrifol yn eu barn nhw.

Nid oes lle i'r gweithredoedd hyn a'r ymddygiad hwn mewn plismona modern, a chroesawyd ymateb y cyhoedd wrth iddynt ddefnyddio'r gwasanaeth hwn. Er nad ydym yn dymuno gweld ymddygiad drwg gan ein heddweision, mae'n allweddol bod mecanweithiau adrodd da mewn grym ar gyfer y cyhoedd, fel bod modd rheoli'r materion hyn mewn ffordd briodol. O ganlyniad i'r gwasanaeth, cofnodwyd a throsglwyddwyd gwybodaeth hanfodol i unedau safonau proffesiynol ar y draws y DU, sy'n ymchwilio i'r adroddiadau yn eu tro.

> **"Mae'n allweddol bod mecanweithiau adrodd da mewn grym ar gyfer y cyhoedd, fel bod modd rheoli'r materion hyn mewn ffordd briodol."**

### Cydweithio pellach

Rydw i'n awyddus i helpu i ddatblygu'r arferion da yr wyf wedi eu gweld yn Crimestoppers, gan weithio tuag at gael cyswllt mwy rhagweithiol gyda materion sy'n dod i'r amlwg. Mae'r elusen wedi bod yn adnodd gwych ar gyfer plismona, gan ddarparu gwybodaeth hanfodol gan ein cymunedau.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, gyda phroblemau cenedlaethol pellgyrhaeddol ar raddfa fawr megis terfysgoedd yn ystod yr haf a materion lle y gwelir niwed mawr fel Llinellau Sirol, camfanteisio ac uniondeb yr heddlu, mae gwasanaeth Crimestoppers wedi bod yn fwy gwerthfawr nag erioed. Edrychaf ymlaen at weithio gyda'r tîm dros y blynyddoedd i ddod."

# Basgedi bara: hanfodol ar gyfer cadwyni cyflenwi cynaliadwy

Mae Paul Empson, Rheolwr Cyffredinol i Bakers Basco, yn trafod arwyddocâd basgedi bara yn y gadwyn gyflenwi a'u rôl wrth hyrwyddo cynaliadwyedd.

"Yn Bakers Basco, rydym yn gwybod bod y fasged fara syml yn fwy na darn o offer dosbarthu; mae'n rhan hanfodol o gadwyn gyflenwi effeithlon. Bedair ar bymtheg o flynyddoedd yn ôl, daeth y pum cwmni pobi mwyaf yn y DU at ei gilydd i sefydlu Bakers Basco er mwyn dylunio a sicrhau tybiau a basgedi bara o safon diwydiant er mwyn darparu bara mewn ffordd effeithlon a chynaliadwy i fanwerthwyr ar draws y wlad.

## Problem camddefnyddio

Ond mae'r camddefnydd a wneir o'n basgedi bara yn bygwth cynaliadwyedd ein system. Yn rhy aml, maent yn cael eu hanfon i safleoedd tirlenwi neu ganolfannau ailgylchu anawdurdodedig. I fynd i'r afael â'r mater hwn, rydym wedi gweithredu systemau olrhain, ac rydym wedi cymryd camau cyfreithiol yn ôl yr angen. Yn ystod 2024 yn unig, nodom filoedd o enghreifftiau o offer wedi'i ddwyn yn cael ei werthu ar blatfformau fel eBay a Facebook Marketplace.

## Ymdrechion i adfer offer wedi'i ddwyn

Er gwaethaf llwyddiant ein hymgyrchoedd ymwybyddiaeth yn ystod 2023 a 2024, mae'r broblem yn parhau. Mae rhwyddineb rhestru nwyddau wedi'u dwyn ar-lein yn ei gwneud hi'n gynyddol anodd olrhain ac adfer offer. Mae hyn yn ychwanegu at gostau amgylcheddol a gweithredol. Rydym yn cynyddu ymdrechion i fonitro gweithgarwch ar-lein ac adfer nwyddau wedi'u dwyn. Mae'n amlwg bod diogelu uniondeb y gadwyn gyflenwi, diogelu diogelwch bwyd a chynorthwyo cynaliadwyedd yn gofyn am weithredu ar y cyd.

## Codi llais

Ar y cyd â Crimestoppers, rydym yn annog pobl i godi eu llais mewn ffordd ddienw am unrhyw un sy'n dwyn neu sy'n gwaredu offer mewn ffordd anghyfreithlon, a mawr obeithiwn y bydd ein partneriaeth yn cyfrannu at godi ymwybyddiaeth o'r achosion hyn o ddwyn a'r ffordd y gall rhannu gwybodaeth gyda Crimestoppers wneud gwahaniaeth mawr. Yn ychwanegol i hyn, mae Bakers Basco yn cynnig gwasanaeth lle y gellir trefnu bod offer wedi'i adfer yn gallu cael ei gasglu am ddim. Cysylltwch â llinell gymorth Bakers Basco: 08000 327323"

# Mae Crimestoppers ac eufy wedi dod ynghyd mewn partneriaeth newydd er mwyn helpu i gadw pobl yn ddiogel rhag troseddu

Mae ein helusen wedi bod yn gweithio am bron i 40 mlynedd, gan sicrhau gwybodaeth arbenigol ynghylch sut i annog pobl y byddent yn cadw'n dawel fel arall i godi eu llais, mewn ffordd hollol ddienw. Mae'r wybodaeth y byddwn yn ei chael ac yn ei throsglwyddo i asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn helpu i atal, delio gyda a datrys rhai o'r mathau mwyaf niweidiol o droseddau.

Mae eufy yn canolbwyntio ar greu cenhedlaeth newydd o ddyfeisiau cysylltiedig sy'n symleiddio'r profiad cartref deallus, a'i wneud yn fwy hygyrch, boed hynny y tu mewn neu'r tu allan. Mae technoleg eufy yn darparu diogelwch arbenigol sydd wedi cael ei deilwra i ffordd o fyw y defnyddiwr, gan gynnig tawelwch meddwl iddynt fel y gallant dreulio mwy o amser yn gwneud yr hyn y maent yn ei garu.

Mae ffigurau Swyddfa'r Ystadegau Gwladol (SYG) wedi datgelu bod byrgleriaethau a gofnodwyd gan yr heddlu wedi mwy na haneru yn ystod y ddegawd ddiwethaf, gyda 271,449 o droseddau ar ffurf byrgleriaethau yn cael eu cofnodi gan yr heddlu yn ystod y flwyddyn tan fis Rhagfyr 2023. Mae SYG wedi dweud yn ddiweddar y derbynnir yn eang bod gwelliannau i ddiogelwch cartrefi wedi bod yn ffactor pwysig yn y gostyngiad hwn yn nifer y troseddau byrgleriaeth domestig.

Er mai'r dioddefwr sy'n teimlo effaith y drosedd fwyaf, mae byrgleriaethau a dwyn yn arwain at ganlyniadau negyddol ehangach trwy feithrin ymdeimlad o ddiffyg diogelwch mewn mannau cyhoeddus ac mewn cartrefi. Mae ein partneriaeth gydag eufy yn dangos pwysigrwydd cadw pobl yn ddiogel i'n sefydliadau. Mae'n helpu i hybu negeseuon ynghylch sut i ddiogelu cartrefi a busnesau rhag troseddu, gan roi'r grym i bobl ddiogelu eu hunain a'u heiddo.

Dywedodd Faraz Mehdi, Rheolwr Cyffredinol y DU ac Iwerddon i gwmni eufy ac Anker Innovations Ltd: "Rydym wrth ein bodd i ymuno gyda Crimestoppers, gan ein bod yn rhannu'r un gwerth bod gan bawb yr hawl i deimlo'n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw. Ein nod yw creu cymunedau sydd ag amgylchedd diogel, a gydag amrediad eufy o gamerâu diogelwch, gallwch sicrhau goruchwyliaeth barhaus, a darparu haen amddiffynnol o gwmpas eich cartref sy'n ataliol ac yn ymatebol."

# Sut y mae DPD a Crimestoppers yn sicrhau trefniadau dosbarthu mwy diogel ar draws y DU




**DPD yn ymuno gyda Crimestoppers i ddiogelu staff a pharseli**

Mae'r cwmni dosbarthu parseli blaenllaw, DPD, wedi ymuno gyda Crimestoppers i ddiogelu gyrwyr a sicrhau bod nwyddau cwsmeriaid yn cael eu dosbarthu yn ddiogel. Mae Tim Jones, Cyfarwyddwr Marchnata, Cyfathrebu a Chynaliadwyedd DPD UK yn esbonio pam:

"Mae DPD yn rhedeg dros 10,000 o gerbydau yn y DU o 85 lleoliad ac mae'n dosbarthu dros 360 miliwn o barseli y flwyddyn. Yn aml, cyfeirir atom fel hoff gwmni parseli y DU, ar ôl cyrraedd y brig ar restr bodlonrwydd cwsmeriaid ar gyfer cwmnïau dosbarthu parseli am y nawfed tro.

"Rydym yn falch o fod yn gweithio gyda Crimestoppers er mwyn cadw ein gyrwyr a'u nwyddau yn ddiogel. Mae trais yn erbyn unrhyw un sy'n gwneud eu gwaith yn hollol annerbyniol. Mae'n bwysig ein bod yn trafod diogelu a chynorthwyo gyrwyr, gan ddosbarthu parseli ein cwsmeriaid yn ddiogel. Mae ein partneriaeth gyda Crimestoppers yn cynorthwyo'r gwaith y mae ein tîm diogelwch ni yn ei wneud i gadw un cam ar y blaen i'r troseddwyr.

"Mae DPD wedi creu sticer pwrpasol, a ddefnyddir ar ein cerbydau DPD i ddangos sut yr ydym yn gweithio gyda Crimestoppers. Rydym hefyd wedi paratoi taflenni, posteri a throednodion ar negeseuon e-bost i hysbysu ein cwsmeriaid a'n staff o'r hyn y mae partneriaeth DPD a Crimestoppers yn ei gyflawni.

"Mae llinell ffôn gyfrinachol a phwrpasol Crimestoppers yno er mwyn i staff DPD ac aelodau'r cyhoedd allu adrodd unrhyw bryderon, gan ein bod yn dymuno sicrhau bod unrhyw un sydd â gwybodaeth berthnasol yn gwybod pwy y gallant gysylltu â nhw, a'u bod yn gwybod y bydd eu galwad neu eu neges e-bost yn hollol ddienw."

# Trawsnewid bywydau gyda rhaglen cymorth galwedigaethol Vivastreet

**Ysgrifennwyd gan Will Bandy – Pennaeth Diogelwch a Chydymffurfiaeth Digital Ventures**

Mae Vivastreet wedi bod yn gweithio gyda Crimestoppers er 2023, fel rhan o'n cenhadaeth i gynnig lle hysbysebu diogel ac y gellir ymddiried ynddo, sy'n rhydd rhag stigma. Rydym yn blatfform hysbysebu dosbarthol sy'n caniatáu i ddefnyddwyr bostio hysbysebion am nwyddau a gwasanaethau ar draws amrediad o gategorïau.

Rydym yn caniatáu i weithwyr rhyw hysbysebu ar ein platfform, ac rydym yn cydnabod bod hyn yn creu heriau a risgiau unigryw, ac yn golygu bod gennym gyfrifoldeb dros sicrhau ein bod yn cadw ein defnyddwyr yn ddiogel, gan ddarganfod unrhyw ymdrechion i bostio cynnwys anghyfreithlon neu sy'n camfanteisio.

Mae ein partneriaeth yn caniatáu i ddefnyddwyr wneud adroddiadau dienw am hysbysebion, i Crimestoppers yn uniongyrchol, gan sicrhau bod unrhyw gynnwys neu bryderon y gallent beri problemau yn cael eu rhoi yn nwylo'r awdurdodau cyn gynted ag bo modd.

Ar ôl gweithredu systemau a phartneriaethau sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch, megis ein perthynas gyda Crimestoppers, roeddem yn dymuno datblygu rhaglenni cyflenwol a fyddai'n mynd y tu hwnt i gadw ein defnyddwyr yn ddiogel, gan gynnig

# Cydweithio i leihau troseddu yn y cymunedau yr ydym oll yn byw ynddynt ac yn eu gwasanaethu

Carl Probert (dde), Rheolwr Diogelu Corfforaethol Morrisons, yn rhoi diweddariad i ni am eu partneriaeth hirsefydlog gyda Crimestoppers.



Mae Morrisons a Crimestoppers wedi bod yn cydweithio ers dros ddeng mlynedd, gyda'r nod o leihau troseddau sy'n effeithio ar fusnes Morrisons, ein cwsmeriaid a'r cymunedau yr ydym yn gweithredu ynddynt.

Mae gwybodaeth y bydd Crimestoppers yn ei chael ac yn ei throsglwyddo yn amrywio o achosion mewnol o ddwyn i ymosodiadau penodol wedi'u targedu yn erbyn ein busnes. Mae'r wybodaeth y byddwn yn ei chael yn ein helpu i gynyddu neu leihau gwaith gwarchod neu gymorth uned symudol mewn ffordd strategol, gan ddibynnu ar ei bygythiad, ei risg a'r niwed y mae'n ei chael ar y busnes. Heb os, mae'r wybodaeth yn ein helpu i ymateb yn gyflym ac mewn ffordd effeithlon er mwyn cadw ein cydweithwyr a'n cwsmeriaid yn ddiogel.

## Negeseuon cadarnhaol

Dros y blynyddoedd diwethaf, gweithredwyd mentrau er mwyn hyrwyddo'r bartneriaeth mewn ffordd lwyddiannus, gan gyfleu'r neges i gynulleidfa ehangach bod Crimestoppers yma er mwyn iddynt drosglwyddo gwybodaeth am droseddu, gan sicrhau eu bod yn aros yn ddienw ar yr un pryd.

## Faniau CCTV

Y fenter gyntaf, a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2023, oedd ychwanegu partneriaeth Morrisons/Crimestoppers i bum fan CCTV a ddefnyddiwyd gan Morrisons ar draws y DU. Anfonir y faniau hyn i ardaloedd problemus, nid yn unig i atal pobl rhag troseddu ond hefyd, i annog pobl i godi eu llais a chadw'n ddiogel rhag troseddu.

## Mwy o wybodaeth

Mae hyn wedi arwain at gynnydd sylweddol yng nghyfanswm yr adroddiadau perthnasol a geir – cynnydd o 87.7% mewn dwy flynedd – ac sy'n cael eu trosglwyddo i dîm ymchwil Morrisons. Yn ei dro, mae hyn wedi arwain at gynnydd yn y camau sy'n cael eu cymryd er mwyn ymateb i'r wybodaeth hon.

## Canlyniad cadarnhaol

O ganlyniad i wybodaeth a gafwyd trwy Crimestoppers ynghylch ymosodiad ar beiriant ATM yng ngogledd orllewin Lloegr, bu modd i Morrisons anfon uned symudol i'r ardal er mwyn atal troseddu yn y dyfodol. Roedd hefyd wedi cynorthwyo'r heddlu lleol i fod yn rhagweithiol o ran eu dull er mwyn dal y troseddwyr wrth iddynt droseddu. Pan dargedwyd manwerthwr arall gan y troseddwyr, fe'u daliwyd gan y fan CCTV a'u dal gan yr heddlu.

llwybrau ystyriol iddynt wneud newidiadau trawsnewidiol yn eu bywydau hefyd.

Mae hyn wedi cynnwys creu gwasanaeth cymorth galwedigaethol newydd, mewn partneriaeth â National Ugly Mugs (NUM), elusen genedlaethol y DU ar gyfer diogelwch gweithwyr rhyw.

Rydym yn gwybod bod rhai o'r rhai sy'n gwneud gwaith rhyw yn dymuno arallgyfeirio eu hincwm neu ddatblygu cyfleoedd gyrfa newydd y tu hwnt i waith rhyw, ond bod rhwystrau mynediad neu ddatblygiad amrywiol yn eu hatal rhag gwneud hynny – megis rhwystrau cymdeithasol, mynediad ariannol cyfyngedig, cyfrifoldebau teuluol, a stigma.

Mae ein Cynllun Cymorth Galwedigaethol, sydd ar y blaen yn y diwydiant, yn cynnig lle pwrpasol i'r rhai sy'n ymwneud â gwaith rhyw i ganlyn eu dyheadau ariannol ac addysgol ac o ran eu gyrfa.

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys gweithdai ysgrifennu CV, hyfforddiant sgiliau cyfweld, a chymorth iechyd meddwl wedi'i dargedu.

Mae'r sesiynau hyn yn creu lle cefnogol lle y gall unigolion archwilio eu cryfderau a chael dirnadaeth o'r ffordd y gall eu profiadau drosi i amgylcheddau proffesiynol ac addysgol eraill. Hyd yn hyn, mae bron i 650 o bobl wedi ymgysylltu â'r gwasanaethau cymorth, ac mae cyfranogwyr gweithdai wedi rhoi sgôr gyfartalog o 4.8 allan o 5 i'r sesiynau.

Gyda'n gwaith ar ddiogelwch gyda Crimestoppers, credwn bod ein gwaith yn enghraifft bwerus o'r ffordd y gall cymorth galwedigaethol wedi'i dargedu wneud gwahaniaeth parhaus, gan gadarnhau'r gred bod pawb yn haeddu cyfle i greu dyfodol boddhaus a chynaliadwy.

# Llinell Gymorth Troseddau Bwyd yr Alban yn cynorthwyo wrth adfer cynhyrchion anghyfreithlon

"Sefydlwyd Safonau Bwyd yr Alban (FSS) yn 2015, ac ef yw'r awdurdod bwyd cymwys yn yr Alban. Mae gennym uned troseddau bwyd penodedig, sy'n cynnwys ymchwilwyr profiadol, swyddogion a dadansoddwyr gwybodaeth, ac maent yn cydweithio mewn partneriaeth agos ag awdurdodau lleol, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chyrff o'r diwydiant i ddiogelu buddiannau defnyddwyr a'r risgiau i iechyd y cyhoedd ym mhob mater sy'n ymwneud â bwyd, diod a bwyd anifeiliaid.

Er mis Awst 2024, mae FSS wedi bod yn arwain ar ymchwiliad ar y cyd gydag awdurdodau lleol, gyda chymorth Heddlu yr Alban ac asiantaethau partner eraill, ynghylch gweithgarwch gwerthu fodca ffug, gyda label Glen's, gan siopau cyfleustra trwyddedig annibynnol ar draws yr Alban. Cadarnhaodd y gwaith dadansoddi bod y 'fodca' yn cynnwys alcohol ispropyl (IPA), sy'n gallu bod yn wenwynig os caiff unrhyw swm ohono ei yfed, ac sy'n gallu lladd os yfir cyfansymiau mwy ohono.

Heb os, roedd hyn yn risg sylweddol i ddefnyddwyr, a reolwyd gennym trwy ymgynghori gydag Iechyd y Cyhoedd yr Alban a phartneriaid allweddol eraill. Defnyddiwyd datganiadau i'r wasg i rybuddio pobl o'r peryglon i iechyd, gan gynghori defnyddwyr sut i adnabod y cynnyrch ffug.

Mewn partneriaeth â Crimestoppers, bu FSS yn hyrwyddo rhif ffôn Llinell Gymorth Troseddau Bwyd yr Alban a'r ffurflen ar-lein, gan ofyn i bobl godi eu llais mewn ffordd hollol ddienw ac roedd Crimestoppers wedi briffio eu swyddogion ateb galwadau am y math o wybodaeth y dylid gofyn amdani mewn perthynas â'n hymchwiliad. O ganlyniad, llwyddom i weithredu yn syth ar sail gwybodaeth a gafwyd trwy'r Linell Gymorth, a fu'n allweddol wrth gasglu fodca ffug o sawl siop.

Roedd eraill a ffoniodd y Linell Gymorth wedi yfed fodca ffug ac wedi dioddef symptomau sy'n gysylltiedig ag IPA, gan gynnwys cyfog, chwydu a phoen yn yr abdomen, a oedd yn rhoi tystiolaeth o'r risg i iechyd



**Ron McNaughton, Pennaeth Uned Digwyddiadau a Throseddau Bwyd yr Alban (SFCIU) yn Safonau Bwyd yr Alban**

## Cysylltu'r dotiau

"Mae Altia a Crimestoppers wedi cael partneriaeth hirsefydlog – ar sail ein hangerdd a'n hymrwymiad ar y cyd i wella diogelwch cymunedau a busnesau ar draws y wlad.

Dyma pam ein bod wedi bod yn gefnogwr Cinio Blynyddol Crimestoppers, lle y mae partneriaid a rhanddeiliaid yn cyfnewid syniadau, yn trafod heriau cyffredin ac yn archwilio datrysiadau ar y cyd.

Mae'n ddigwyddiad 'un o'i fath' sy'n dwyn ynghyd ystod eang o sefydliadau ac unigolion sy'n rhannu cenhadaeth. Yn aml, mae'r perthnasoedd a'r sgyrsiau yr ydym wedi'u datblygu trwy gyfrwng yr ysbryd hwn o gydweithio wedi bod yn ffynhonnell syniadau a datrysiadau arloesol.

Mae ethos cydweithio a phartneriaeth wedi bod yn rhan sylfaenol o'r ffordd yr ydym yn gweithio yn Altia ers amser hir. Mae'n llifo trwy bopeth a wnawn, gan gynnwys ein dull gweithredu wrth ddatblygu meddalwedd ymchwilio. Y llynedd, lansiom ein platfform cynhenid cwmwl newydd – Alta HQ – sy'n gwneud ein meddalwedd ymchwilio yn rhyngweithredol.

Y nod yw sicrhau bod unrhyw ymchwiliad neu dîm gweithredol yn gallu dewis cyfuniad o fodiwlau sy'n gweithio orau iddyn nhw – o offerynnau casglu gwybodaeth i reoli achosion, rheoli digwyddiadau a pharatoi ffeiliau llys. Law yn llaw â'r trefniadau diogelwch diweddaraf a'r datblygiadau technolegol diweddaraf, mae hefyd wedi cael ei ddatblygu i alluogi gallu cysylltu estynedig er mwyn datgelu llwybrau ymchwilio newydd.

Rydym hefyd wedi gwneud buddsoddiad sylweddol mewn datrysiad Gwybodaeth Ffynhonnell-Agored (OSINT). Wrth i droseddwyr fanteisio ar

pobl.  Roedd un unigolyn a ffoniodd yn awyddus i amlygu i ymchwilwyr pa mor dda yr oedd Crimestoppers wedi delio â'u galwad, gan gynnig tawelwch meddwl iddynt a'r hyder i gynorthwyo gyda'r ymchwiliad.

Trwy gyfuniad o waith ymchwilio, gwybodaeth gan y cyhoedd trwy Crimestoppers a mentrau wedi'u targedu, llwyddwyd i gasglu 234 potel o fodca ffug, yr oeddent wedi cael eu gwerthu neu eu stocio i'w gwerthu mewn naw siop drwyddedig.

Mae camau gorfodi prydlon wedi atal gwerthiant pellach o'r cynnyrch peryglus hwn, ac mae'r ymholiadau yn parhau i ddarganfod yr unigolion a fu'n gyfrifol am ei gynhyrchu a'i ddosbarthu.

Mae'r achos hwn yn dangos rôl allweddol Crimestoppers wrth ddatblygu gwybodaeth i gynorthwyo ymchwiliadau trwy gynnig gwasanaeth dibynadwy a phroffesiynol i'r cyhoedd ei ddefnyddio i gyfleu gwybodaeth mewn ffordd hollol gyfrinachol."

**Ysgrifennwyd gan Ron McNaughton, Pennaeth Uned Digwyddiadau a Throseddau Bwyd yr Alban (SFCIU) yn Safonau Bwyd yr Alban**

blatfformau digidol yn gynyddol, mae defnyddio'r wybodaeth hon yn hanfodol.  Cynlluniwyd Altia OSINT Investigator i fod yn rhywbeth hawdd i'w ddefnyddio, gan sicrhau bod y data a gesglir yn cydymffurfio â safonau moesegol a rheoliadau preifatrwydd, fel bod unrhyw beth a gaiff ei gasglu yn berthnasol ac yn dderbyniadwy.

"Rydw i'n edrych ymlaen at flwyddyn arall o ysbrydoliaeth a chydweithio gyda chymuned Crimestoppers.  Hir oes i gysylltu mwy o ddotiau a mynd i'r afael â mwy o droseddu, gyda'n gilydd."

**Ysgrifennwyd gan Rob Sinclair, Prif Swyddog Gweithredol yn Altia**

# Crimestoppers yn cynorthwyo ymdrechion i haneru troseddau cyllyll mewn degawd

Gan weithio gyda'r Swyddfa Gartref, cynhaliodd Crimestoppers ymgyrch i amlygu cynnydd sylweddol yn nifer y lladradau a alluogir gan gyllell, yn ogystal â phwysleisio pwysigrwydd diogelwch personol mewn sefyllfaoedd o'r fath:  mae eich bywyd yn fwy gwerthfawr nag unrhyw eiddo yr ydych yn berchen arno.




Gall lladrata a alluogir gan gyllell fod yn brofiad ofnadwy o ofidus i ddioddefwyr, felly mae mynd i'r afael â'r drosedd benodol hon yn allweddol i Genhadaeth Strydoedd Mwy Diogel y Llywodraeth i haneru troseddau cyllyll mewn degawd, er mwyn gwneud cymunedau yn fwy diogel i bawb.

Cynhaliwyd yr ymgyrch mewn ffordd organig rhwng 29 Tachwedd a 27 Rhagfyr 2024 ar draws sianelau cenedlaethol Crimestoppers.  Er gwaethaf y ffaith na ddefnyddiwyd unrhyw ddeunydd y talwyd amdano ar gyfryngau cymdeithasol, gwelwyd cynulleidfa weithredol a chysylltiedig, wrth i dudalen yr ymgyrch ar y we weld cynnydd o 90% yn hyd y sesiynau o'u cymharu ag ymgyrchoedd eraill a fu'n rhedeg yn ystod y cyfnod hwn.

**Dywedodd Bonesig Diana Johnson, Gweinidog Plismona:** "Fel gwlad, mae dyletswydd arnom i wneud popeth y gallwn i atal pobl ifanc rhag cario cyllyll ac atal pobl ifanc arall rhag bod yn ddioddefwyr.  Dyma pam ein bod wedi penderfynu rhoi'r adduned i haneru troseddau cyllyll wrth wraidd Cenhadaeth Strydoedd Mwy Diogel y Llywodraeth hon.


Rydym yn gwybod hefyd bod cario cyllell yn aml yn arwain at gyflawni troseddau eraill. Yn arbennig, mae 43% o'r holl droseddau cyllyll a gyflawnir ar draws Cymru a Lloegr yn achosion lladrata a alluogir gan gyllell bellach.

"Rydw i'n gwybod pa mor drawmatig yw'r math hwn o ladrad i ddioddefwyr, ac rydym yn benderfynol o fynd i'r afael â'r ofn y mae hyn yn ei achosi yn ein cymunedau.  Dyma pam ein bod wedi lansio Tasglu Lladrata a Alluogir gan Gyllell a fydd yn canolbwyntio'n benodol ar y math hwn o droseddu.

"Bydd yn dwyn arweinwyr plismona a phartneriaid cyfiawnder troseddol ynghyd i ganolbwyntio ar wella tactegau'r heddlu a rhoi sylw i'r heriau systematig ehangach sy'n dal cynnydd yn ôl.

"Bydd y genhadaeth hon yn gofyn am ymdrech enfawr ar draws llywodraeth gyfan ac ar draws ein cymdeithas gyfan, ond gyda'n gilydd, gallwn ei chyflawni."

# Y dull gweithredu daearyddol wrth fynd i'r afael â throseddu treisgar: dirnadaeth gan Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr




Ym maes diogelwch y cyhoedd, mae integreiddio systemau gwybodaeth ddaearyddol (GIS) wedi gweddnewid y ffordd yr ydym yn ystyried atal troseddu a gorfodi'r gyfraith. Yn Esri UK, rydym wedi bod yn dyst i effaith drawsnewidiol technoleg GIS mewn sectorau amrywiol, ond efallai bod hyn yn amlycach ym maes plismona nag y mae mewn unrhyw faes arall. Mae achos Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr yn enghraifft dda o'r ffordd y gall dull gweithredu daearyddol, wedi'i gyfuno â phlismona sy'n canolbwyntio ar y broblem a thactegau plismona sy'n canolbwyntio ar ardaloedd problemus, wella diogelwch y cyhoedd a lleihau troseddu mewn ffordd sylweddol. Rydym yn mynd i adrodd stori i chi am sut y mae Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi haneru cost troseddu gymaint â £4m mewn ardal benodol, gan leihau troseddau treisgar 16% a darparu gwerth dros 35,000 awr o batrolio, gan arwain at gymryd meddiant o 500 o arfau a gwneud 812 o arestiadau.

### Deall yr her

Mae rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr wedi wynebu her frawychus gyda chynnydd mewn troseddau cyllyll a throseddau treisgar eraill. Yn ystod y 12 mis cyn mis Mawrth 2024, bu 7,000 o droseddau a oedd yn ymwneud â chyllell, sy'n golygu mai hon oedd y rhanbarth gyda'r gyfran uchaf fesul pen o'r boblogaeth o ran troseddau cyllyll yn Lloegr. Mae'r ystadegyn dychrynllyd hwn yn tanlinellu'r angen dybryd am ddatrysiadau arloesol i oresgyn troseddau cyllyll a diogelu cymunedau.

### Y dull gweithredu daearyddol

Cychwynnodd Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ar fenter uchelgeisiol, sef Prosiect Gwarcheidwad, gyda chymorth y Swyddfa Gartref. Y nod oedd manteisio ar dechnoleg er mwyn nodi ardaloedd problemus lle y gwelir troseddau treisgar, ac anfon gwasanaeth plismona bro wedi'i dargedu i'r ardaloedd hyn. Roedd y dull gweithredu hwn, a elwir yn Batrolau Gwarcheidwaid wedi'u Targedu, yn dibynnu'n fawr ar allu datblygedig meddalwedd ArcGIS Esri.

### Plismona ardaloedd problemus a phlismona ar sail problemau

Mae plismona ardaloedd problemus yn ymwneud â chanolbwyntio ymdrechion gorfodi'r gyfraith ar ardaloedd daearyddol penodol lle y gwelir niferoedd uchaf y troseddau. Mae plismona ar sail problemau, ar y llaw arall, yn pwysleisio'r cam o nodi a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol troseddu. Trwy gyfuno'r ddwy strategaeth hon gyda grym GIS, llwyddodd Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o batrymau troseddu a datblygu ymyriadau mwy effeithiol.

### Dadansoddi geo-ofodol uwch

Cafodd y dadansoddwyr yn Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr hyfforddiant gan Sefydliad Jill Dando, a dechreuont ddefnyddio ArcGIS i ddadansoddi data ynghylch troseddau cyllyll a throseddau treisgar eraill dros y dair blynedd ddiwethaf. Arweiniodd y dadansoddiad hwn at greu map rhyngweithiol a oedd yn amlygu ardaloedd problemus o ran troseddau treisgar, yr oedd pob un ohonynt tua 0.2 cilomedr o ran diamedr. Roedd y manylder hwn wedi caniatáu i'r heddlu nodi ardaloedd penodol yr oedd angen ymyriadau arnynt fwyaf.

### Sgorau niwed a dwysedd

Er mwyn gwella eu gwybodaeth am droseddu ymhellach, aeth yr heddlu ati i gynnwys sgorau niwed yn eu dadansoddiad, gan ddefnyddio technegau

dadansoddi gofodol ArcGIS. Roedd hyn yn caniatáu iddynt nodi lleoliadau lle y gwelwyd lefelau niwed uchel, o fewn a thu allan i'r ardaloedd problemus cychwynnol. Trwy nodi eiddo penodol sy'n gysylltiedig â niwed uchel, gallai'r heddlu gynyddu patrolau yn yr ardaloedd hyn a chymryd mesurau rhagweithiol i atal troseddu.

### Monitro ac addasu

Un o fanteision arwyddocaol defnyddio ArcGIS yw'r gallu i fonitro newidiadau mewn lefelau troseddu gydag amser. Gallai Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr ailadrodd eu dadansoddiad a defnyddio technegau megis dadansoddi gwahaniaeth dadleoli wedi'i bwysoli i asesu effaith eu dulliau plismona. Roedd y dull gweithredu dynamig hwn yn eu galluogi i ailosod ffocws eu gweithgareddau yn gyflym wrth i ardaloedd problemus leihau mewn rhai ardaloedd ac ymddangos mewn ardaloedd eraill, ac roedd hyn wedi eu helpu i gadw un cam ar y blaen yn y frwydr yn erbyn troseddau difrifol.

### Cyflawni effaith lleihad mewn troseddu

#### Neilltuo adnoddau'r heddlu mewn ffordd fanwl

Gyda gwybodaeth newydd gan ArcGIS, gallai Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr gyfeirio eu Patrolau Gwarcheidwaid wedi'u Targedu i'r lleoliadau cywir, gan helpu i atal mwy o bobl rhag bod yn ddioddefwyr. Cyfrannodd y dadansoddiad at gynlluniau SARA (Sganio, Dadansoddi, Ymateb, ac Asesu) ar gyfer lleoliadau penodol, gan gyfrannu at ostyngiad o 16% mewn troseddau treisgar ar draws pymtheg ardal SARA.

#### Gweithredu effeithiol i atal troseddau cyllyll

Roedd gwybodaeth gan ArcGIS wedi cyfrannu at leoliadau gwerth 35,000 awr o batrolau rhwng mis Ionawr 2024 a mis Ionawr 2025, gan arwain at gymryd meddiant o dros 500 o arfau a gwneud 812 o arestiadau. Helpodd y dull gweithredu rhagweithiol hwn i atal troseddau cyllyll cyn iddynt ddigwydd, gan gynnig ymdeimlad o ddiogelwch i'r cymunedau yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.

#### Roedd cost troseddu wedi lleihau £4 miliwn

Er mai ffocws pennaf Prosiect Gwarcheidwad oedd gostwng nifer y marwolaethau a'r anafiadau a achosir gan drais, roedd y patrolau a dargedwyd wedi cael effaith ehangach ar droseddu yn gyffredinol hefyd. Yn ardal Washwood Heath, helpodd y defnydd o ArcGIS i haneru'r gost flynyddol i gymdeithas, o £8 miliwn i £4 miliwn.

#### Dealltwriaeth ddyfnach o ardaloedd problemus lle y gwelir niwed

Trwy ddefnyddio ArcGIS, llwyddodd yr heddlu i feithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o leoliadau'r troseddau mwyaf niweidiol. Roeddent wedi darganfod bod 20% o'r niwed, gan gynnwys achosion trywanu, yn digwydd mewn 1.5% o'r rhanbarth yn unig. Roedd y lluniau ar ffurf map a gynhyrchwyd yn ArcGIS yn ei gwneud yn haws i'r holl heddweision ddeall y dadansoddiad a gweld yn union ym mha strydoedd a lleoliadau yr oedd y risgiau uchaf.

Mae Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr yn dangos effaith aruthrol dull gweithredu daearyddol, gyda chymorth technoleg GIS datblygedig, ar ddiogelwch y cyhoedd. Trwy gyfuno plismona sy'n canolbwyntio ar ardaloedd problemus a phlismona sy'n canolbwyntio ar broblemau gyda gallu dadansoddi pwerus ArcGIS, mae'r heddlu wedi llwyddo i gael dealltwriaeth ddyfnach o batrymau troseddu, gan neilltuo adnoddau mewn ffordd effeithiol a chymryd camau rhagweithiol i atal troseddu. Mae llwyddiant Prosiect Gwarcheidwad yn fodel i heddluoedd eraill sy'n dymuno gwella eu strategaethau atal troseddu a diogelu eu cymunedau.

Yn Esri UK, rydym yn falch o gynorthwyo Heddlu Gorllewin Canolbarth Lloegr gyda'u hymdrechion i greu cymdogaethau mwy diogel a lleihau troseddu. Nid offeryn dadansoddi yn unig yw'r dull gweithredu daearyddol tuag at blismona, wedi'i seilio ar allu datblygedig ArcGIS, ond mae hefyd yn strategaeth bwerus er mwyn gwneud ein cymunedau yn fwy diogel.

**I glywed mwy o fanylion am y stori hon, cofrestrwch ar gyfer digwyddiadau Esri UK a gynhelir cyn bo hir. Trowch at esriuk.com, cliciwch 'About' ac yna 'Events', lle y bydd modd i chi weld manylion cynadleddau a gynhelir cyn bo hir yn Llundain, Caeredin a Chaerdydd.**

Mae Esri UK wedi bod yn un o gefnogwyr Crimestoppers ers amser hir, nid yn unig trwy ddarparu ArcGIS i'w Canolfan Gyswllt, ond hefyd trwy ddefnyddio ArcGIS i ddarparu dangosfyrddau adrodd gwybodaeth modern i reolwyr rhanbarthol sy'n cynorthwyo Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Heddluoedd gyda gwybodaeth werthfawr ynghylch atal troseddu.

Fel y mae stori Gorllewin Canolbarth Lloegr yn dangos, rydym yn hynod falch o'r cyfraniad yr ydym yn ei wneud i gynorthwyo Crimestoppers, gan gynnig lle i'r cyhoedd adrodd am droseddu mewn ffordd hollol ddienw a helpu ymchwiliadau, arestiadau ac erlyniadau.

**Ysgrifennwyd gan Chris Gardiner – Pennaeth Diogelwch y Cyhoedd yn Esri UK**

# Uchafbwyntiau ymgyrchoedd

Mae ein helusen mor brysur ag erioed, ac yn ystod y 12 mis diwethaf, cynhaliwyd ystod eang o ymgyrchoedd cenedlaethol, rhanbarthol a datblygu busnes sydd wedi cael effaith.

## Ymgyrchoedd cenedlaethol




### Troseddau treisgar difrifol

Roedd ymgyrch wedi hysbysu'r cyhoedd am ystod eang y troseddau treisgar a gyflawnir, gan gynnwys y cynnydd yn nifer yr achosion lladrata a alluogir gan gyllell, ac roedd hwn yn cynnwys data newydd gan y Swyddfa Gartref. Law yn llaw â chyfryngau traddodiadol, roedd gan yr ymgyrch hwn bresenoldeb ehangach yn yr awyr agored, a oedd yn cynnwys paneli teithwyr mewnol ar fysiau/tramiau, mewn ciosgau ffôn a phosteri, gan ehangu ei gyrhaeddiad posibl ar draws y DU ymhellach.

### Troseddau meddiannu




Roedd ymgyrch eleni yn esblygiad o'r ymgyrch a gynhaliwyd yn 2023, gan ganolbwyntio ar effaith emosiynol a seicolegol troseddau meddiannu ar ddioddefwyr a chymunedau y tro hwn. Gan bwysleisio colli diogelwch mewn cartrefi, cyfeiriodd un ystadegyn perthnasol at y ffaith bod ofn ar 40% o ddioddefwyr byrgleriaethau i fod ar eu pen eu hunain yn eu heiddo yn ystod yr wythnosau yn dilyn y digwyddiad, a oedd yn un o'r ffigurau niferus a ddefnyddiwyd er mwyn datblygu'r ymgyrch.

### Cam-drin domestig




Datblygwyd deunydd creadigol newydd ar sail adborth mewnol, gan amlygu amrediad o wahanol sefyllfaoedd i ddangos y gall unrhyw un fod yn ddioddefwr neu'n gyflawnydd cam-drin domestig. Cyflwynwyd yr ymgyrch ar draws y we, ar gyfryngau cymdeithasol, Google Ads, yn y wasg a thrwy gyfryngau yn yr awyr agored, megis hybiau stryd, yn ogystal â gweithgarwch ychwanegol y talwyd amdano ar draws y DU gyda chyfranogiad saith Rheolwr Rhanbarthol.

# Ymgyrchoedd rhanbarthol




## Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM)

Lansiwyd yr ymgyrch ar Ddiwrnod Rhyngwladol Dim Goddefgarwch o FGM. Gan weithio mewn partneriaeth â Heddlu Sussex, sefydliad nid-er-elw HERSANA CIC a phartneriaid eraill, amlygodd gweithgarwch yr ymgyrch effeithiau parhaol y weithdrefn, yn ogystal ag atgyfeirio ar gyfer y rhai y mae angen cymorth arnynt.

## Effaith Pencampwriaethau Pêl-droed yng Ngogledd Orllewin Lloegr

Yn ystod Cwpan y Byd a phencampwriaeth yr Ewros, bu cynnydd mawr yn y wybodaeth a roddwyd i Crimestoppers am gam-drin domestig a digwyddiadau yfed a gyrru a gyrru dan ddylanwad cyffuriau. Roedd yr ymgyrch hwn wedi amlygu i gymunedau yng Ngogledd Orllewin Lloegr bod y troseddau hyn yn cynyddu yn ystod twrnameintiau pêl-droed mawr, gan annog y cyhoedd i godi eu llais mewn ffordd ddienw a rhoi gwybodaeth i Crimestoppers.




## Benthyca arian rheibus




Lluniwyd a datblygwyd yr ymgyrch hwn yng Ngogledd Iwerddon, ac roedd y cysyniad yn canolbwyntio ar fideo o neidr, gan bwysleisio'r ffaith bod benthycwyr arian rheibus a throseddol yn gwneud eu bywoliaeth o gamfanteisio ar eraill a'u bygwth, a manteisio ar y cyfnod economaidd presennol i dynhau eu gafael.

# Cymuned Crimestoppers

Mae Crimestoppers yn credu bod gan bawb yr hawl i deimlo’n ddiogel rhag troseddu, ble bynnag y maent yn byw, a hefyd, mae’n credu yng ngrym pobl er mwyn helpu i atal a datrys troseddau. Mae hyn yn ein rhoi wrth galon y gymuned, boed hynny mewn digwyddiad busnes neu mewn sioe amaethyddol.



# Cynnig gwobr o £50,000 am ddychwelyd darnau arian Albanaidd prin

Ym mis Tachwedd 2024, cynhaliodd Crimestoppers yr Alban ddigwyddiad gwobrwyo mewn partneriaeth ag Amgueddfa Hunterian Glasgow i apelio am wybodaeth am achos heb ei ddatrys, sef achos o ddwyn un o'r casgliadau pwysicaf o ddarnau arian Albanaidd cynnar.

Cynigiwyd gwobr o hyd at £50,000 am wybodaeth am yr achos, lle'r oedd dros fil o ddarnau arian o'r 12fed a'r 13eg ganrif wedi cael eu dwyn ym mis Mehefin 2007 o gartref Arglwydd ac Arglwyddes Stewartby yn Broughton, ger Peebles.

Yn y cyfamser, bu farw Arglwydd Stewartby, nwmismatydd adnabyddus. Rhoddwyd Casgliad



Arglwydd Stewartby o Ddarnau Arian Albanaidd i'r Hunterian ym Mhrifysgol Glasgow yn 2017.

Cyflwynwyd yr apêl ar y cyd gan Angela Parker, Rheolwr Cenedlaethol Crimestoppers yr Alban, a Jesper Ericsson, Curadur Nwmismateg yn The Huntarian, Prifysgol Glasgow. Rhoddwyd cryn sylw i'r digwyddiad, yn y DU ac ar y llwyfan rhyngwladol, wrth i orsafoedd radio a theledu mawr fynychu, a llwyddwyd i gyrraedd cynulleidfa o bron i 2 biliwn.

Dywedodd Jesper Ericsson: "Mae'r darnau arian canoloesol hyn yn llai o faint na cheiniog fodern. Efallai bod portreadau brenhinoedd ac arysgrifau wedi treulio bron i ddim, ac efallai bod siâp rhyfedd ar y darnau arian, neu efallai eu bod wedi cael eu torri'n haneri neu'n chwarteri hyd yn oed. Gallech ffitio 1,000 mewn bocs cludfwyd plastig, felly nid ydynt yn cymryd llawer o le. Efallai nad ydynt yn edrych yn arbennig, ond y darnau arian hyn yw'r symbolau cynharaf o annibyniaeth ariannol yr Alban."

# Ymgyrchu yn erbyn troseddu cefn gwlad trwy gyfryngau cymdeithasol a radio

Ym mis Gorffennaf, bu Crimestoppers yn Sioe Frenhinol Cymru 2024 i sôn wrth ymwelwyr am beryglon troseddau cefn gwlad.

Roedd dros 200,000 o ymwelwyr o 40 o wahanol wledydd wedi ymweld â sioe 2024, a oedd yn dathlu ei phen-blwydd yn 120 oed. Mae'r digwyddiad pedwar diwrnod, a gynhelir yn Llanelwedd ger Llanfair-ym-Muallt ym Mhowys, yn adnabyddus am arddangos y gorau o blith stoc anifeiliaid fferm yng Nghymru, gan gynnwys cystadlaethau defaid, gwartheg, moch a cheffylau, yn ogystal â threialon cŵn defaid ac arddangosiadau gyrru car a cheffyl. Y tu hwnt i amaethyddiaeth, mae'r sioe yn cynnwys stondinau, arddangosfeydd ac arddangosiadau chwaraeon cefn gwlad a chrefftau Cymreig traddodiadol.

Yn ystod y digwyddiad, buom yn canolbwyntio ar godi ymwybyddiaeth o droseddau cefn gwlad trwy ein hymgyrch, a gynorthwywyd gan bresenoldeb cryf ar gyfryngau cymdeithasol a radio. Bu'n wythnos hynod o brysur lle y dosbarthom dros 3,000 o felinau gwynt Crimestoppers a tua 6,000 o feiros, gan ymgysylltu â'r cyhoedd a lledaenu ein neges. Bu ein presenoldeb yno yn bosibl diolch i ymdrechion diflino Cadeirydd Pwyllgor Cymru, Jon Drakes, a fu'n cydweithio gyda threfnwyr y digwyddiad i sicrhau ein presenoldeb.

Dywedodd Jon: "Roedd dwyn Crimestoppers i Sioe Frenhinol Cymru 2024 yn hanfodol gan bod troseddau cefn gwlad yn effeithio ar ffermwyr, busnesau a chymunedau ar draws Cymru. Gyda chymaint o ymwelwyr o nifer o wahanol wledydd, y digwyddiad hwn oedd y llwyfan perffaith i godi ymwybyddiaeth a chychwyn sgyrsiau am fynd i'r afael â throseddau yng nghefn gwlad.

"Cydweithiais yn agos gyda'r trefnwyr i sicrhau bod gennym bresenoldeb cryf trwy gydol y pedwar diwrnod. Roedd ein nod yn syml: rhoi gwybod i bobl y gallant godi eu llais am droseddu mewn ffordd hollol ddienw. Ymgysylltom â miloedd o ymwelwyr, ac roedd gweld pobl yn dysgu am sut y gallant helpu i ddiogelu eu cymunedau wedi gwneud yr holl waith caled yn werth chweil. Mae troseddau cefn gwlad yn effeithio ar gymunedau cyfan, a dyma pam yr oeddwn yn benderfynol o roi llais i Crimestoppers yn y Sioe Frenhinol. Bwriadwn wneud yr un peth yn 2025."

# Cydnabod gweithgarwch cydweithio sydd wedi cael effaith yn Rewarding Partnerships a Chinio Blynyddol 2024

Mae ein helusen yn falch o fod yn bartner sy'n ennyn ymddiriedaeth i dros gant o gyrff adnabyddus ac uchel eu parch, gan gynnwys cwmnïau masnachol, y sector cyhoeddus, elusennau eraill, awdurdodau lleol, cymdeithasau tai ac wrth gwrs, yr heddluoedd ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith yr ydym yn darparu ein gwasanaethau craidd iddynt.

Rydym yn cynnal digwyddiadau trwy gydol y flwyddyn sy'n ceisio ein dwyn ni a'r partneriaid hyn yn agosach. Mae'r digwyddiadau hyn yn cynnig cyfle i ddathlu partneriaethau llwyddiannus a meithrin perthnasoedd hirsefydlog rhyngom ni a'n partneriaid.

### Partneriaethau Gwobrwyo

Ym mis Mai 2024, cynhaliwyd y digwyddiad yn Nhŵr eiconig BT, ac fe'i noddwyd gan ein partner, Openreach, a helpodd i drefnu'r digwyddiad.

Mae Rewarding Partnerships yn cynnig y cyfle i ni gydnabod cyfraniad gwerthfawr pob partner i'n helusen ar ffurf cyllid a chodi ymwybyddiaeth.




**Arglwydd Ashcroft, Syr Mark Rowley, Mick Creedon a Mark Hallas yng Nghinio Blynyddol 2024**

### Cinio Blynyddol

Bu Crimestoppers yn dathlu ei chyflawniadau a'i heffaith yn ystod y Cinio Blynyddol ym mis Tachwedd 2024, a gynhaliwyd yn safle nodedig IET Savoy Place yn Llundain, ac a noddwyd gan Altia.

Roedd y noson yn cynnwys areithiau ysbrydoledig, gan gynnwys un gan ein Sylfaenydd a'n Cadeirydd, Arglwydd Ashcroft, a amlygodd y twf cynyddol am wasanaethau Crimestoppers, ynghyd ag anerchiad craff gan Gomisiynydd Heddlu Llundain, Syr Mark Rowley.

Mae'r ddau ddigwyddiad yn cynnig cyfle i ni gydnabod a dathlu'r gwaith a wnawn gyda'n gilydd, ac mae'n achlysur lle y gallwn siarad wyneb yn wyneb mewn lleoliad anffurfiol, ac yn fforwm lle y gall ein partneriaid busnes gyfarfod aelodau ein helusen ehangach a deall mwy am y gwaith amrywiol a wnawn.

## Dathlu gwirfoddolwyr gyda Room to Reward

Eleni, cofrestrodd Crimestoppers gyda Room to Reward fel ffordd o wobrwyo rhai o'n gwirfoddolwyr pennaf.

Mae Room to Reward yn elusen unigryw sy'n cydnabod gwirfoddolwyr ac sy'n gweithio gyda gwestai partner i roi ystafelloedd gwestai nad ydynt wedi cael eu gwerthu er mwyn gwobrwyo gwirfoddolwyr am eu gwaith caled. Fel arfer, mae'r gwobrau yn un neu ddwy noson mewn gwesty, dan drefniant gwely a brecwast, ac mae modd dewis o blith dros 700 o westai yn y DU. Cafodd Crimestoppers naw ystafell mewn gwesty, a llwyddodd i wobrwyo un ar ddeg o wirfoddolwyr arbennig – y maent oll wedi gwneud cyfraniad nodedig i weithgarwch ymgysylltu cymunedol.

Y derbynwyr oedd:
Alan Black, Sam Illing, Carole Eniffer, Dave a Lynn Baker, Derek a Paula McFaul, Joy Muir, Julie Davison, Paul Bateman, a Pete Anderson.




# Hunter Thorburn yn myfyrio ar yrfa ddisglair dros 35 mlynedd gyda Crimestoppers

Ar ôl cychwyn fel gwirfoddolwr, daeth Hunter bron yn rhan anhepgor o'r swyddfa – darllenwch fwy am yrfa un o wynebau mwyaf cyfarwydd Crimestoppers.

Mae swydd am oes yn rhywbeth prin heddiw, wrth i'r unigolyn cyffredin newid swyddi rhwng 5 a 7 gwaith yn ystod eu cyfnod gweithio (careersadviceonline.com). Mae rhai swyddi yn arwain at yrfaoedd hirach, ond yn y sector elusennol, mae gweithgarwch ailstrwythuro ac ad-drefnu yn rhywbeth cyffredin, yn enwedig yn ystod cyfnodau economaidd anodd fel hyn.

Mae Hunter, y mae ei enw yn adlewyrchu ei gymeriad, yn dod o'r traddodiad Eingl-Sacsonaidd pan arferai ei gludwr cyntaf weithio fel heliwr. Gallech chi awgrymu bod Hunter wedi bod yn gyfrifol am hela a chasglu data am y rhan fwyaf o'i yrfa, a'i fod wedi mynd yn groes i'r duedd gyffredin o ran newid gyrfaoedd, gan bod dadansoddi data yn bwysicach fyth yn yr hinsawdd economaidd hon o gyni.

Ar ôl astudio mathemateg ym Mhrifysgol Sterling (sy'n adnabyddus am fod yr unig brifysgol sydd â llyn a chwrs golff) a chwblhau ei swydd gyntaf yn Standard Life, cychwynnodd Hunter ar daith a fyddai'n para oes gyda'r Ymddiriedolaeth Gweithredu Cymunedol (CAT), sef enw gwreiddiol Crimestoppers, ym 1983. Gan ymuno fel gwirfoddolwr yn y lle cyntaf, bu Hunter yn gwneud gwaith dadansoddi data trwy adolygu setiau amrywiol o ddata ystadegol heb ddefnyddio unrhyw gyfrifiaduron (na hyd yn oed cyfrifianellau).

Yn fuan ar ôl dechrau gwirfoddoli gyda CAT, roedd rôl i'w llenwi wedi codi: Cynorthwyydd Gweithrediadau, felly cychwynnodd Hunter ar ei yrfa o drin data ar gyfer Crimestoppers. Pan gynigiwyd y rôl i Hunter, gofynnwyd iddo "Faint wyt ti'n dymuno cael dy dalu?" Ar ôl

gwneud sawl cyfrifiad yn y fan a'r lle, gofynnodd Hunter am y swm rhesymol o £15,000 y flwyddyn, ac ar ôl rhai trafodaethau cymhleth, cytunwyd ar hyn.

Cychwynnodd Hunter yn ei rôl trwy aros gyda theulu yn Clapham, ac roedd hyn yn caniatáu iddo gerdded neu fynd ar daith fer ar fws i'w waith yn Putney. Fel yr ydym oll wedi dod i'w fwynhau, mae Hunter wastad wedi bod yn foregodwr, yn enwedig o ystyried bod yr ymddiriedaeth "i gwblhau'r oriau gofynnol" yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd.

Yn ôl ar ddechrau'r 90au, lleolwyd CAT yn Academi Arglwydd Ashcroft yn Putney, lle'r oedd sawl un o elusennau Arglwydd Ashcroft wedi'u lleoli, ynghyd ag Angela Entwistle. Bellach, mae'r ysgol wedi esblygu i fod yn Gyfadran Busnes a'r Gyfraith Prifysgol Anglia Ruskin (Ysgol Fusnes Ryngwladol Arglwydd Ashcroft yn flaenorol; LAIBS).

O ganlyniad i ymdrechion Ashcroft, gwelwyd CAT a'r ysgol yn ehangu: symudodd CAT i safle yn Nhŷ Apollo, uwch ben gorsaf tiwb Morden. Yno, nid yn unig yr oeddent yn agos i'r tiwb, ond roedd y swyddfa yn gallu manteisio ar dechnoleg aerdymheru hefyd.

Tra bod ymgyrchoedd yn cael eu cynllunio yn ofalus gyda chyrhaeddiad amcangyfrifedig, roedd yn rhaid argraffu symiau enfawr o eitemau, eu storio, eu casglu â llaw, eu pacio a'u postio allan – ac roedd hyn weithiau yn costio mwy na'r ymgyrch hysbysebu ei hun yn ystod y dyddiau cyn ffeiliau PDF a pheiriannau argraffu lliw.

Archebwyd symiau mawr o bosteri a chardiau, a dosbarthwyd y rhain gan heddluoedd a Rheolwyr Rhanbarthol o gwmpas y wlad. I wrthbwyso'r costau argraffu, roedd y cardiau yn cynnwys logo News of the World – un o noddwyr cyntaf Crimestoppers.

Wrth i elfen gyhoeddusrwydd Crimestoppers dyfu, gwelwyd y galw am adroddiadau misol yn tyfu hefyd, gan godi statws Hunter yn y sefydliad. Pennaeth cyntaf Hunter, sef Digby Carter Carnel, a oedd wedi bod yn y fyddin, oedd y Pennaeth Gweithrediadau ar y pryd. Dan lygad gwyliadwrus Digby, arferai Hunter dreulio ei ddiwrnodau yn cyfrifo ystadegau â llaw i'w dosbarthu i heddluoedd.

> **"Un o gyflawniadau eraill Hunter oedd y ffaith iddo ennill gwobr bwrpasol am wasanaeth nodedig gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu."**

Mynychodd Hunter gyfarfodydd pwyllgor cenedlaethol o gwmpas y wlad hefyd, a oedd yn gofyn am bolisi rhwydweithio uchelgeisiol. Mae gan Hunter atgofion melys o gerdded o gwmpas Cynhadledd Lerpwl, gan fynychu sawl cyfarfod, a theimlo'n hynod o bwysig a mwynhau peidio bod yn gaeth i'r swyddfa.

Yn ystod y dyddiau cynnar, roedd prif swyddfa Crimestoppers yn Putney, ac atebwyd galwadau mewn ystafelloedd mewn gorsafoedd heddlu o gwmpas y DU. Roedd Hunter yn gyfrifol am gasglu ystadegau a data lle y medrai. Gan weithio gyda'i bennaeth, bu'n gweithio gydag ymddiriedolwr uwch hefyd a oedd yn gweithio yn adeilad yr academi gyda phedair ysgrifenyddes a'u teipiaduron, ochr yn ochr â chydweithiwr codi arian.

Yn ystod y dyddiau hyn, yn swyddfeydd yr heddlu, roedd rhwystrau rhith yn aml yn bodoli, a oedd yn atal gweithgarwch cyfnewid gwybodaeth rhwng adrannau er mwyn atal gwrthdaro rhwng buddiannau neu dorri rheolau moesegol. Roedd yn gweithio'n dda, gan bod pobl yn cael eu hysbysu ar sail yr angen i wybod.

Roedd y ffordd yr anfonwyd yr "adroddiadau" hyn at Hunter yn defnyddio peiriant ffacs a phapur thermol (sy'n colli lliw yng ngolau'r haul wrth gwrs). Un o fanteision Crimestoppers o fewn yr heddlu yw y ffaith ei fod yn cynnig gwasanaeth "y tu allan i oriau swyddfa" gyda'r hwyr ac ar benwythnosau, sydd o fudd i'r ddwy ochr.

Fodd bynnag, yn ôl ym Morden, roedd Hunter yn gyfrifol am gasglu'r data misol gan y swyddfeydd lloeren a oedd wedi'u gwasgaru ar draws y wlad. Hwyluswyd tasg Hunter pan ddaeth y lleoliadau hyn ynghyd mewn canolfan gyswllt (ystafell a oedd yn cynnwys 4 unigolyn ym Morden). Gwelwyd y Ganolfan Gyswllt yn tyfu'n raddol dros y blynyddoedd ac wrth gyflwyno Rheolwyr Rhanbarthol, sefydlwyd mwy o gyfrifoldebau a gwahanol weithdrefnau trwy ddarparu data mwy perthnasol yn eu hardaloedd priodol.

Un o gampau mwyaf nodedig Hunter yw y bu ar raglen University Challenge gyda Bamber Gascoigne, lle'r oedd ei dîm wedi llwyddo i guro Coleg Selwyn, Caergrawnt, ond cawsant eu trechu gan St Anne, Rhydychen.

Un o gyflawniadau eraill Hunter oedd y ffaith iddo ennill gwobr bwrpasol am wasanaeth nodedig gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Pan holwyd Hunter am ei gyfnod yn Crimestoppers, soniodd am ei atgofion braf yn ystod ei yrfa dros 35 o flynyddoedd, ac mae'n falch o'r ffaith ei fod wastad wedi cyd-dynnu'n dda gyda'i benaethiaid.

Yn fyr, mae ein Hunter unigryw a digyffelyb wedi llwyddo i aros yma yn hirach na 5 prif swyddog gweithredol, 6 Cyfarwyddwr Gweithrediadau, a nifer helaeth o Benaethiaid Marchnata. Heb os, bydd yn siŵr o dreulio ei ymddeoliad yn cadw golwg ar gynnydd Crimestoppers o hyd, gan ymlacio a mwynhau nofelau a ffilmiau cyffrous am drosedd ar yr un pryd.



Crimestoppers Trust
PO Box 324, Wallington
SM6 6BG

Mae Ymddiriedolaeth Crimestoppers yn elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr (1108687), yr Alban (SC037960)

Golygydd: Ella Duffy

Gyda diolch i
Nicholas Edwards

Dylunio:
Phil McAllister Design Ltd

Argraffwyd yn y
DU gan Wasg Selsey

© Crimestoppers Trust 2025

**CrimeStoppers.**

**0800 555 111**

100% anonymous. Always.

crimestoppers-uk.org

# Partneru gyda ni

Rydym yn arbenigo mewn diogelu busnesau a chadw cymunedau yn ddiogel.

**Ein gwasanaethau:**

- Gwasanaeth adrodd/ codi llais i gyflogeion
- Gwasanaeth adrodd/ chwythu'r chwiban i'r cyhoedd
- Rhannu gwybodaeth
- Partneriaethau
- Rhwydweithio a digwyddiadau
- Ymgyrchoedd addysg, ymwybyddiaeth a galwad i weithredu i'r cyhoedd

Gallwch ddarganfod mwy trwy sganio'r cod QR:



**crimestoppers-uk.org/partner-benefits**

Rhif Elusen gofrestredig 1108687 (Cymru a Lloegr) Rhif SC037960 (Yr Alban)